

Y Ffordd

Cynhelir cyfarfod nesaf 'Y Ffordd' yn festri Carmel nos Fercher, Mai 10.

Cymorth Cristnogol

Mai 14-20

Mae gwir angen yr arian a gesglir yn ystod yr Wythnos i gefnogi gwaith yr elusen hon o estyn cymorth i bobl sy'n dioddef yn ein byd. Ac yn lleol, mae angen pobl i helpu gyda'r gwaith o gasglu o ddrws i ddrws os yw'r ymdrechion lleol i wyddo.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Ebrill 24: Swper Cymdeithas Undebol Deiniolen yng Nghlwb Golf Caernarfon am 7.00 o'r gloch.

Nos Fercher, Ebrill 26: Cyfarfod Chwarter yn Salem, Caernarfon am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 30: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Ebrill 26: Cyfarfod Chwarter yn Salem, Caernarfon am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ebrill 28: CIC am 7.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 23

5.00 p.m. - Mr Charles Jones, Llanrug

Ebrill 30

5.00 p.m. - Mr Richard Lloyd Jones

Mai 7

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Dydd Sul, Ebrill 30: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mrs Nerys Griffith, Caernarfon. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones, Pwllheli.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 30: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Nos Fercher, Ebrill 26: Cyfarfod Chwarter yn Salem, Caernarfon am 7.00 o'r gloch.

Dydd Iau, Ebrill 27: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 30: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Elwyn Jones, Talwrn

CARMEL

Dydd Llun, Ebrill 24: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Fercher, Ebrill 26: Cyfarfod Chwarter yn Salem, Caernarfon am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 30: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones, Llangefni

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Ebrill 24: Ni chynhelir y Cyfarfod Gweddi.

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Ebrill 30

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

Mai 7

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Mr Myfyr Roberts



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 726: Dydd Sul, 23 Ebrill, 2017

Geiriau'r hen bunt

Os oes gennych bentwr o hen bapurau £5 dan fatres y gwely, mae gennych lai na phythefnos i'w gwario. Ar ôl Mai 5ed, bydd y papurau hyn yn ddiwerth yn y siopau. Bydd yr un peth yn wir am yr hen ddarnau punt ar ôl Hydref 15fed eleni wedi i ni gael y darn punt newydd y mis diwethaf. Gorau po gyntaf felly y cewch wared â'r hen bres trwy ei wario neu fynd ag o i'r banc.

Bathwyd yr hen ddarn punt cyntaf yn 1983, a wyddwn i ddim bod yna 25 cynllun gwahanol wedi bod i'r darn hwn ers hynny. Wyddwn i ddim chwaith bod i bump ohonynt thema Gymreig, yn cynnwys y darn ag arno lun o Bont Menai. Mi wyddwn fod y geiriau 'PLEIDIOL WYF I'M GWLAD' ar ymyl rhai darnau; ond doeddwn i ddim yn cofio nad dyna'r unig eiriau Cymraeg a gafwyd arnynt; roedd 'Y DDRAIG GOCH DDYRY GYCHWYN' ar ymyl un darn.

Ar wahân i'r ddau ymadrodd Cymraeg, dim ond geiriau Lladin a gafwyd ar ymyl y darnau punt. Rhwng y cynllun cyntaf yn 1983 a'r olaf eleni cafwyd pum ymadrodd Lladin gwahanol. Daw un o'r gerdd Aeneid gan y bardd Fyrsil; priodolir un arall (gan rai beth bynnag) i Iw! Cesar; a daw'r tri arall oddi ar dair arfbais.

Oddi ar arfbais dinas Belfast y caed yr ymadrodd 'PRO TANTO QUID RETRIBUAMUS' ['Am y cyfan beth a

dalaf']. Ond geiriau Salm 116:12 yw'r rhain, 'Beth a dalaf i'r Arglwydd, am ei holl ddaioni i mi?' Oddi ar arfbais Llundain y daeth 'DOMINE DIRIGE NOS' ['Arglwydd, arwain ni']. Ac oddi ar arfbais Caeredin y caed 'NISI DOMINUS FRUSTRA' ['Heblaw'r Arglwydd, yn ofer']. Ond crynodeb o adnod gyntaf Salm 127 ydynt, 'Os nad yw'r Arglwydd yn adeiladu'r tŷ, y mae ei adeiladwyr yn gweithio'n ofer'.

Ie, wrth gofio daioni a chariad Duw tuag atom, sut allwn ddiolch iddo? Beth allwn ei wneud i'r Arglwydd a wnaeth gymaint drosom yn ei Fab Iesu Grist? Mae ein geiriau mor annigonol a'n gwasanaeth mor ddiffygiol. Yn ein gwendid, gweddiwn am nerth a gras i fedru ymateb i'w haelioni mawr. Ie, 'Arglwydd, arwain ni' i'th garu a'th fawrygu. Fel unigolion ac fel eglwysi, mor bwysig yw deall ein bod yn gwbl ddbynnol ar Dduw. Fyddem ni ddim yn ei garu oni bai am y cariad a barodd iddo Ef roi ei Fab i farw trosom. Fyddem ni ddim wedi derbyn Iesu'n Waredwr oni bai am y gras a roddwyd i ni i wneud hynny. Fyddai gennym ni'r un bwriad i'w wasanaethu oni bai am y dyhead a gawsom ganddo. Ei waith Ef yw'r cyfan. Ein hedifeirwch, ein ffydd, ein cariad, ein hufudd-dod; popeth yn waith Duw. Ie, fel dywed y Salmydd, 'Os nad yw'r Arglwydd yn adeiladu'r tŷ, y mae ei adeiladwyr yn gweithio'n ofer'. Wyddwn i ddim fod yr hen bunt yn dweud cymaint.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Ond canaf fi am dy nerth, a gorfoddedd yn y bore am dy ffyddlondeb; oherwydd buost yn amddiffynfa i mi ac yn noddfa yn nydd fy nghyfyngder. O fy Nerth, canaf fawl i ti, oherwydd Duw yw famddiffynfa, fy Nuw trugarog (Salm 59:16-17).



BEIBL BYW

Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch, ac yn ystod yr oedfa bydd Lois a Jason Jones yn cyflwyno eu merch Greta i'w bedyddio. Estynnwn groeso cynnes i'w teulu a'u ffrindiau a fydd wedi ymuno â ni i addoli ac i dystio i'r bedydd.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Charles Jones, Llanrug.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Olive Jones, 1 Hafod Oleu, Deiniolen, a fu farw yn Ysbyty Eryri yn 88 mlwydd oed, ar Ebrill 10, yn yr Amlogsgfa ym Mangor ddydd Mercher, Ebrill 19 dan arweiniad y Gweinidog a'r Parchg Eifion Williams, Llanfairfechan.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'i mab Terry, ac â'i hwyres a'i hwyrion, Siân Elen, Huw, Rhys Padarn, Owain Peris ac Eilian a'i chwiorydd Phyllis a Gwennie a'i brodyr yng nghyfraith John Maldwyn, Elwyn a Hywel yn eu colled.

Treuliodd Olive y pum mis diwethaf yn yr ysbyty yn dilyn y codwm a gafodd yn ei chartref ar Sul y Cofio, nôl ym mis Tachwedd. Hyd at hynny, roedd wedi medru dod i'r oedfaon yn rheolaidd, a gwelsom ei cholli yn fawr yn y capel dros y misoedd diwethaf. Yr oedd yn wraig annwyl a bonheddig, yn gymydog caredig a phoblogaidd, ac yn gyfaill da i lawer. Gweithiodd yn galed ar hyd ei hoes, a bu'n ofalus iawn o'i diweddar briod Emrys Wyn trwy'r blynyddoedd y bu ef yn wael cyn ei farwolaeth yn 2005. O fewn mis i'w gilydd y fwyddyn honno collodd Olive ei phriod a'i merch Anwen a fu mor driw iddi. Yn ei galar, bu'n gefn i'w theulu ac yn arbennig felly i blant Anwen, Siân a Huw.

Ar hyd y misoedd blin diwethaf hyn bu'r teulu'n ofalus iawn ohoni, ac maent hwythau'n gwerthfawrogi'n fawr y gofal

a gafodd gan bawb a fu'n gweini arni yn Ysbyty Eryri i'r diwedd. Trwy bob poen yr oedd hithau'n ddiolchgar am bopeth a wnaed drosti.

Anfonwn ein cofion yn arbennig at ei chwaer Mrs Pyllis Morris, a fethodd fynd i'r angladd am nad oedd yn ddigon da ei hiechyd yr wythnos ddiwethaf.

Cyfarfod Eglwysig

Cynhelir Cyfarfod Eglwysig arbennig i holl aelodau Ebeneser am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Mai. Fe ddylai pob aelod fod wedi derbyn llythyr erbyn hyn i'w hysbysu am y cyfarfod hwn, ac apeliwn ar bawb i ddod iddo os medrant.

Swper

Daw tymor Cymdeithas Undebol Deiniolen i ben nos yfory gyda'r Cinio a gynhelir yng Nghlwb Golff Caernarfon. Dechreuir am 7.00 o'r gloch. Y gwr gwadd fydd Mr Berwyn Owen, Llanrug.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yn Salem Caernarfon, am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 26.

Yn ystod y cyfarfod bydd Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr, y Parchg Ddr Geraint Tudur, a'r Dr Hefin Jones, Caerdydd yn cyflwyno sylwadau am arolwg a wnaed gan yr Undeb yn ddiweddar i gyflwr y Cyfundebau, yn

cynnwys Cyfundeb Gogledd Arfon. Mae croeso cynnes i bawb i'r Cyfarfod Chwarter nos Fercher, fel pob amser.

CIC

Bydd CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener, Ebrill 28.

Casgliad y Genhadaeth

Diolch i bawb a gyfrannodd yn Capel Coch at Gasgliad Cenhadol Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaidd Cymru. Casglwyd £97 at y gwaith hwn.

SLAM

(Sbort, Lles A Mwy)

Noson a diwrnod o chwaraeon ar gyfer pobl ifanc 11 i 14 oed yw SLAM. Fe'i cynhelir yng Nghanolfan Tŷ'n Y Nant, Abererch nos Wener a dydd Sadwrn, Mai 5-6.

Trefnwyd gan Andrew Settatee a'i frawd John. Beth yw SLAM?
Sbort - chwaraeon o bob math
Lles - anogaeth i fyw yniach
A Mwy - cyfle i holi a dysgu am Dduw

Cost y penwythnos fydd £35. Croeso i bobl ifanc fynd yno nos Wener yn unig neu ddydd Sadwrn yn unig os na fedrant aros dros nos. Cewch ragor o fanylion gan y Gweinidog. Ffopniwch 01286 872390.

Penwythnos Plant yng Ngholeg y Bala

Nos Wener-Dydd Sul, Ebrill 13-15

Ar gyfer plant yr Ofalaeth - 8 i 12 oed

Enwau i'r Gweinidog yr wythnos hon os gwelwch yn dda